# Ydy Hi’n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?



Edrychwch ar y lluniau isod. Trafodwch gyda’r person sydd gyda chi p’un a ydych chi’n meddwl ei bod yn iawn i rywun eich trin fel hyn ai peidio. Meddyliwch sut y byddech chi’n hoffi cael eich trin ac os yw’r ymddygiad yn un teg.

twinkl.com






Mae yna ferch yn eich dosbarth sy’n eich galw yn wirion, dwl a hyll.

twinkl.com






Ar y bws ysgol, mae yna fachgen sy’n hŷn na chi yn pigo arnoch drwy gymryd eich bag a’ch pinsio.

twinkl.com

## Ydy Hi'n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?



Mae eich mam yn dweud wrthoch bod yn rhaid i chi wneud eich gwaith cartref cyn i chi fynd allan i gwrdd â'ch ffrindiau.

## Ydy Hi'n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?



Rydych chi a'ch ffrindiau mewn clwb ar ôl ysgol. Maen nhw'n penderfynu trefnu eu clwb eu hunain amser cinio ond nid ydynt yn gadael i chi ymuno â nhw.

## Ydy Hi'n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?



Rydych chi newydd ddarganfod y byddwch yn mynd i ysgol uwchradd wahanol i'ch ffrindiau ac maen nhw wedi dechrau eich gadael allan o weithgareddau.

## Ydy Hi'n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?



Rydych chi am ganu yn y côr ac wedi cael clyweliad am ran arbennig yn y côr hwnnw. Mae'ch ffrind gorau eisiau cael yr un rhan ac mae wedi dechrau ymbellhau wrthoch.

## Ydy Hi'n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?




Rydych chi'n chwarae mewn twrnamaint pêl-rwyd ac rydych chi wedi methu cael y bêl yn y rhwyd yn eiliad olaf y gêm. Mae'ch ffrindiau yn cerdded i ffwrdd o'r cwrt hebddoch.

## Ydy Hi'n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?



Mae'ch tad yn dweud wrthoch bod yn rhaid i chi ddod adref erbyn amser te a bod rhaid i chi gerdded adref gyda'ch ffrindiau.

## Ydy Hi'n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?



Mae'ch athro yn eich cadw i mewn yn ystod amser chwarae i chi gael cyfle i orffen eich gwaith cartref oherwydd nad oeddech wedi'i orffen yn ystod y penwythnos.

## Ydy Hi'n Iawn i Rywun Wneud Hyn i Chi?



Mae'ch ffrind yn copïo eich gwaith cartref ac yn dweud wrthoch am beidio â dweud unrhyw beth am hyn wrth unrhyw un.